**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR** |
| **SUBJECT:** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD MAWRTH, 24 HYDREF 2023 DYDD MAWRTH, 24 HYDREF 2023** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
J. P. Morgan
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Gwasanaethau Plant
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Davies, L. Parsons a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefbau. | |
| **No. 4** | **<u>CYDYMDEIMLAD</u>**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda theulu Sally Ann-Evans, oedd yn gydweithiwr uchel iawn ei pharch ac yn Gyfreithiwr y Cyngor. Bu Sally-Ann farw yn sydyn ar 6 Hydref 2023. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Talwyd teyrngedau i Sally-Ann a dangosodd Aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch. | |
| No. 5 | **<u>HUNANASESIAD 2022/2023 CYNGOR BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Ystyriodd aelodau adroddiad y Prif Weithredwr Interim.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Hunan-asesiad 2022/23 y Cyngor i gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i rannu gyda phartneriaid allweddol fel yr amlinellir ym mharagraff 2.42 y canllawiau statudol h.y.:<br><br>Paragraff 2.42 – Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hunanasesiad o fewn pedair wythnos ar ôl iddo gael ei gwblhau yn unol â phrosesau cytunedig y Cyngor, a dylai copi fod ar gael i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio corfforaethol y Cyngor. Dylid hefyd anfon yr adroddiad at:<br><br>▪ Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>▪ Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant ei Fawrhydi yng Nghymru<br>▪ Gweinidogion Cymru | |
| No. 6 | **<u>TREFN EITEMAU AR YR AGENDA</u>**<br><br>Cytunwyd y caiff yr eitem ddilynol ei hystyried ar y pwynt hwn yn y gyfarfod:<br><br>Eitem Rhif 7 – Trefniadau Craffu Priodol Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru | |
| No. 7 | **<u>TREFNIADAU CRAFFU PRIODOL CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL DE DDWYRAIN CYMRU</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Nodwyd y caiff adroddiad yn rhoi manylion gwaith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ei gyflwyno i'r Cyngor maes o law. Caiff | |

| | | |
|---|---|---|
| | diweddariad hefyd ei roi i Aelodau ar ffurf Briffiad i Aelodau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod:<br><br>(1) Y JOSC yn cael ei benodi yn Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y CJC.<br><br>(2) Cymeradwyo'r drafft Gylch Gorchwyl ar gyfer ei swyddogaethau yng nghyswllt y CJC, fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.<br><br>(3) Nodi cost gweinyddu'r JOSC ar gyfer y CJC ac y caiff ei drin drwy gytundeb lefel gwasanaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Taf a'r CJC, i'w gwblhau maes o law. | |
| **No. 8** | **<u>ADRODDIAD BUDD CYHOEDEDUS – CANFYDDIADAU ADOLYGIAD SICRWYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi canfyddiadau'r Adolygiad Sicrwydd a'r argymhellion a amlinellir isod:<br><br>• Dynodi Swyddog Cyswllt o fewn y Cyngor i sefydlu cyfarfod cydlynu rheolaidd gydag Archifdy Gwent ac Amlosgfa Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>• Trefnu Briffiad Aelodau ar y gweithrediadau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Archifdy Gwent ac Amlosgfa Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>• Cynnwys yr holl ddogfennau strategol, cynllun busnes blynyddol a chyfrifon Archifdy Gwent ac Amlosgfa Gwent yn y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer 2024-25, a'r Cyngor lle'n berthnasol, o leiaf ddwywaith y flwyddyn.<br><br>• Datblygu'r Cylch Gorchwyl yn 'becyn cymorth llywodraethiant' i'w ddefnyddio gan swyddogion ar draws y Cyngor i roi sicrwydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gwmnïau presennol a pe byddai unrhyw rai newydd yn cael eu sefydlu erbyn diwedd mis Mawrth 2024. | |
| **No. 9** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH – 1 EBRILL 2022 – 31 MAWRTH 2023</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datbygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Tîm Iechyd a Diogelwch am eu gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn ac am y gwaith a wnaed i sicrhau fod disgyblion a staff wedi medru dychwelyd i ysgolion yn ddiogel yn ystod cyfnod Covid.<br><br>PENDERFRYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo adroddiad manwl yr Adolygiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch ynghyd â'r camau gweithredu a argymhellir i liniaru meysydd consyrn a risg. | |